**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod Y Cabinet

**Siambr y Cyngor, Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Iau, 21 Mehefin 2018 am 10.00 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd R C Stewart (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
| --- | --- | --- |
| J E Burtonshaw | M C Child | R Francis-Davies |
| D H Hopkins | E J King | A S Lewis |
| C E Lloyd | J A Raynor | M Thomas |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr):

---

## 1. Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, cyhoeddwyd y cysylltiadau canlynol:

1) Datganodd y Cynghorydd J A Raynor gysylltiad personol a rhagfarnol â Chofnod 15 "Penodiadau Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol" a gadawodd y cyfarfod cyn ei ystyried.

2) Datganodd y Cynghorydd M Thomas gysylltiad personol â Chofnod 16 "Rheol 7 Gweithdrefn Ariannol Grantiau Cyfalaf Trafnidiaeth Leol 2018-2019";

3) D
atganodd y Cynghorydd C E Lloyd gysylltiad personol â Chofnod 27 "Rheol 7 y Weithdrefn Ariannol - Cyfnewidfa Pont Baldwin 2018-2019".

## 2. Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion y cyfarfod(ydd) a restrir isod fel cofnod cywir:

1) Cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 17 Mai 2018.

## 3. Adroddiad(au) Arweinydd y Cyngor.

Ni wnaed unrhyw gyhoeddiadau gan Arweinydd y Cyngor.

**4. Cwestiynau gan y cyhoedd.**

Gofynnwyd nifer o gwestiynau ynghylch Cofnod 13 “Trefniadaeth Ysgolion sy’n gysylltiedig â’r Cynllun Strategol Addysg Gymraeg”, Cofnod 14 “Adolygiad o Ysgolion Bach” a Chofnod 20 “Y Diweddaraf am Brosiectau Adfywio Abertawe a Rheolau Gweithdrefnau Ariannol 7”.

Ymatebodd yr aelod perthnasol o’r Cabinet.

**5. Hawl i holi cynghorwyr.**

Gofynnwyd nifer o gwestiynau ynghylch Cofnod 13 “Trefniadaeth Ysgolion sy’n gysylltiedig â’r Cynllun Strategol Addysg Gymraeg”, Cofnod 14 “Adolygiad o Ysgolion Bach” a Chofnod 21 “Bargen Ddinesig Bae Abertawe”.

**6. Ymchwiliad Craffu i Waith Ranbarthol**

Cyflwynodd y Cynghorydd L R Jones, Cynullydd y Panel Ymchwiliad Craffu Gweithio Rhanbarthol, gasgliadau, canlyniadau ac argymhellion ymchwiliad y panel i weithio rhanbarthol.

**Penderfynwyd:**

1) Nodi'r adroddiad, a chafodd yr aelod perthnasol o'r Cabinet y dasg o gyflwyno ymateb ysgrifenedig i'r Cabinet.

**7. Craffu cyn penderfyniad - Arfarniad o opsiynau ar gyfer mwy o gartrefi ar safle Parc yr Helyg.**

Cyflwynodd y Cynghorydd T J Hennegan yr adborth craffu cyn penderfynu.

**8. Arfarniad o opsiynau ar gyfer mwy o gartrefi ar safle Parc yr Helyg**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Gartrefi ac Ynni adroddiad a oedd yn darparu'r diweddaraf ar ba opsiwn y dylid bwrw ymlaen ag ef ym Mharc yr Helyg, ynghyd â'r goblygiadau ariannol.

**Penderfynwyd**:

1) Cadarnhau'r fanyleb a ffefrir fel Safon Abertawe (gyda pheirianneg gwerth) ar ôl ystyried yr opsiynau fel y'u hamlinellwyd yn yr adroddiad;

2) Nodi'r rhaglen ddatblygu tymor hwy a chymeradwyo'r swm o £500,000 a glustnodwyd i'r cynllun ar gyfer y gwaith paratoi cyn bwrw ati â Cham 2 Colliers Way, y dirprwywyd y manylion ar ei gyfer i'r Cyfarwyddwr Lleoedd, yn unol â gofynion Rheol 7 y Weithdrefn Ariannol.

## 9. Adroddiad y Pwyllgor Datblygu a Chyflwyno Polisi Addysg a Sgiliau - Sgiliau'r Fargen Ddinesig.

Cyflwynodd y Pwyllgor Datblygu a Chyflwyno Polisi Addysg a Sgiliau adroddiad a oedd yn amlinellu'r cynnydd o ran datblygu polisi ar addysg a sgiliau i ateb heriau'r Fargen Ddinesig.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo'r camau gweithredu a nodwyd yn yr adroddiad ar ôl ystyried yr adroddiad am ddatblygu polisi ar addysg a sgiliau i elwa ar y cyfleoedd a ddarperir gan y Fargen Ddinesig;

2) Y bydd Aelod y Cabinet dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes yn gweithio gyda swyddogion i sicrhau bod trefniadau lleol yn gadarn er mwyn ateb yr heriau ac elwa o'r cyfleoedd a gyflwynir gan y Fargen Ddinesig, gan gynnwys sefydlu trefniadau partneriaeth lleol i'w bwydo i'r partneriaethau rhanbarthol.

## 10. Cymorth Dewisol Treth y Cyngor - i'r rheiny sy'n gadael gofal. (rhwng 18 a 25 oed)

Cyflwynodd Arweinydd y Cyngor (Aelod y Cabinet dros yr Economi a Strategaeth) adroddiad a oedd yn ceisio dyfarnu Cymorth Dewisol Treth y Cyngor i bobl ifanc sy'n gadael gofal sy'n byw yn ardal Dinas a Sir Abertawe fel rhan o gyflawni dyletswydd yr awdurdod fel rhiant corfforaethol a chefnogi'r bobl ifanc hynny sy'n gadael gofal.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Bydd y Cabinet yn arfer ei bwerau dewisol i ddyfarnu 100% o Gymorth Dewisol Treth y Cyngor i atebolrwydd net Treth y Cyngor yr holl bobl ifanc rhwng 18 a 25 oed sy'n gadael gofal.

## 11. Ardrethi Busnes - Cynllun Cymorth Ardrethi Dros Dro (Cymru) 2018/19

Cyflwynwyd adroddiad gan Aelod y Cabinet dros Drawsnewid Busnes a Pherfformiad a oedd yn darparu gwybodaeth ac yn ystyried mabwysiadu Cynllun Cymorth Ardrethi newydd ar gyfer y Stryd Fawr, sy'n ymwneud ag ardrethi busnes, a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru (LlC) ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol.

**Penderfynwyd:**

1) Nodi manylion y cynllun fel y'u nodir yn yr adroddiad;

2) Mabwysiadu'r Cynllun Cymorth Ardrethi a'r broses ymgeisio fel y'u nodir yn yr adroddiad, ar gyfer 2018-2019.

**12. Adroddiad Blynyddol y Gymraeg 2017-2018**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Drawsnewid Busnes a Pherfformiad adroddiad yn llawn gwybodaeth a oedd yn rhoi trosolwg o waith yr awdurdod o ran y Gymraeg yn ystod y cyfnod adrodd penodol.

**13. Trefniadaeth Ysgolion sy'n gysylltiedig â Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg**

Cyflwynwyd adroddiad gan Aelod y Cabinet dros Wella Addysg, Dysgu a Sgiliau a oedd yn ceisio ystyriaeth o'r camau nesaf y mae eu hangen i fwrw ymlaen â'r ymrwymiadau a geir yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (WESP), fel y'i hadlewyrchir yn Rhaglen Band B Ysgolion yr 21ain Ganrif, a lle y bo'n briodol, gymeradwyo dechrau prosesau ymgynghori statudol.

**Penderfynwyd:**

1) Nodi'r camau nesaf y mae eu hangen i gyflwyno'r ymrwymiadau yn y WESP, a chymeradwyo dechrau ymgynghoriad statudol fel y bo'n briodol, yn benodol:

   a) Y cynnig i adleoli YGG Tan-y-lan, gwella cyfleusterau a'i hehangu;

   b) Y cynnig i adleoli YGG Tirdeunaw, gwella cyfleusterau a'i hehangu (os oes angen);

   c) Ymgynghori ar y cynnig i gau YGG Felindre;

   ch) Y bwriad i adolygu dalgylchoedd ysgolion cynradd ac uwchradd Cymraeg yn ôl yr angen i adlewyrchu'r newidiadau arfaethedig uchod.

**14. Adolygiad ysgol bach.**

Cyflwynwyd adroddiad gan Aelod y Cabinet dros Wella Addysg, Dysgu a Sgiliau a oedd yn nodi'r ysgolion bach yn Abertawe ac yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer cynnig i gau un o'r ysgolion hyn, sef Ysgol Gynradd Craig-cefn-parc ar 31 Awst 2019.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo'r ymgynghoriad ar gynnig i gau Ysgol Gynradd Craig-cefn-parc ar 31 Awst 2019.

2) Ystyried yr ymatebion yn dilyn y cyfnod ymgynghori;

3) Parhau â'r adolygiad o ysgolion bach gan y Cabinet fel a amlinellwyd yn yr adroddiad.

## 15. Penodiadau Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol.

Cyflwynodd Grŵp Penodi Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer yr enwebiadau a gyflwynwyd i lenwi swyddi gwag Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol (ALl) ar gyrff llywodraethu ysgolion.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo'r enwebiadau canlynol a argymhellwyd gan y Prif Swyddog Addysg ar y cyd ag Aelod y Cabinet dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes:

| | | |
|---|---|---|
| 1) | Ysgol Gynradd Gellifedw | Y Cyng. Alyson Pugh |
| 2) | Ysgol Gynradd Sgeti | Y Cyng. David Helliwell |
| 3) | Ysgol Gyfun yr Esgob Gore | Y Cyng. Cheryl Philpott |

## 16. Rheol 7 Gweithdrefn Ariannol Grantiau Cyfalaf Trafnidiaeth Leol 2018/19

Cyflwynwyd adroddiad gan Aelod y Cabinet dros yr Amgylchedd a Rheoli Isadeiledd adroddiad a oedd yn cadarnhau'r cais am grant gan y Gronfa Drafnidiaeth Leol a grant gan Gronfa'r Rhwydwaith Trafnidiaeth Leol ac yn ceisio cymeradwyaeth i wario ar y cynlluniau a'r prosiectau arfaethedig yn 2018-2019.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo cynlluniau grant y Gronfa Trafnidiaeth Leol a Chronfa'r Rhwydwaith Trafnidiaeth Leol, ynghyd a'u goblygiadau ariannol.

## 17. Hysbysiadau o gosb benodol am dipio'n anghyfreithlon

Cyflwynwyd adroddiad gan Aelod y Cabinet dros yr Amgylchedd a Rheoli Isadeiledd a oedd yn nodi bod Hysbysiadau o Gosb Benodol yn darparu cyfle i dramgwyddwyr sy'n troseddu am y tro cyntaf osgoi mynd i'r llys a chael cofnod troseddol posib. Maen nhw'n cynnig ymateb mwy effeithlon a chymesur i fynd i'r afael â mân achosion o dipio anghyfreithlon a fydd hefyd yn helpu i ysgafnhau'r baich ar system y llysoedd.

**Penderfynwyd:**

1) Pennu swm o £400 ar gyfer y ffi cosb benodol, a swm o £250 os caiff ei thalu'n gynnar o fewn 10 niwrnod gwaith;

2) Y bydd Aelod y Cabinet/Swyddog Arweiniol yn adolygu hyn mewn blwyddyn.

## 18. Cytundeb Compact y Trydydd Sector.

Cyflwynwyd adroddiad gan Aelod y Cabinet dros Gymunedau Gwell a oedd yn ceisio cytundeb ar gyfer Cytundeb Compact diweddaredig y Trydydd Sector Abertawe.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo Compact y Trydydd Sector cyn ei fabwysiadu'n ffurfiol gan bartneriaid ar 27 Mehefin 2018.

## 19. Cynllun Benthyciadau Canol y Ddinas FPR7.

Cyflwynwyd adroddiad gan Aelod y Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio a Thwristiaeth a oedd yn ceisio cydymffurfio â Rheol 7 y Weithdrefn Ariannol "Rhaglennu ac Arfarniadau Cyfalaf" er mwyn ymrwymo i gynnwys y Cynllun Benthyciadau ar gyfer Canol Trefi yn y rhaglen gyfalaf a'i awdurdodi.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo cynllun arfaethedig y Gronfa Benthyciadau Canol Trefi a'i holl oblygiadau ariannol a chyfreithiol, a'i ychwanegu at y Rhaglen Gyfalaf;

2) Cymeradwyo lansio'r Gronfa Benthyciadau Canol Trefi a bwrw ymlaen i gynnig benthyciadau ar gyfer canol trefi.

## 20. Diweddariad prosiectau adfywio Abertawe a FPR7.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio a Thwristiaeth adroddiad a oedd yn nodi'r penderfyniadau brys y mae angen eu gwneud a gofynion y gyllideb bresennol yn unol â Rheolau'r Weithdrefn Ariannol.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo gofynion y gyllideb gyfalaf er mwyn bwrw ymlaen â'r prosiectau canlynol:

| Prosiect | Y cyfalaf sy'n angenrheidiol |
|---|---:|
| Abertawe Ganolog - Cam 1 | £5,385,393 |
| Abertawe Ganolog - Cam 2 | £850,000 |
| Nenlinell (cam cychwynnol) | £90,000 |
| Penderyn | £1,500,000 |
| Gerddi'r Castell | £50,000 |
| Ffordd y Brenin | £2,408,000 |
| **CYFANSWM** | **£10,283,393** |

**21. Bargen Ddinesig Bae Abertawe.**

Cyflwynwyd adroddiad gan Aelod y Cabinet dros yr Economi a Strategaeth a'r Prif Weithredwr a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer sefydlu Cyd-bwyllgor Bargen Ddinesig Bae Abertawe a'r ffrydiau cyllido cysylltiedig.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo sefydlu Cyd-bwyllgor Bargen Ddinesig Bae Abertawe a'r strwythur llywodraethu cysylltiedig;

2) Cymeradwyo cytundeb drafft y Cyd-bwyllgor a dirprwyo awdurdod i'r Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd, i wneud y fath fân ddiwygiadau i'r cytundeb ag y mae eu hangen, a sicrhau bod yr awdurdodau partner a llywodraethau Cymru a'r DU yn cytuno â'r rhain, er mwyn cwblhau'r cytundeb;

3) Cymeradwyo sefydlu Cyd-bwyllgor Craffu Bargen Ddinesig Bae Abertawe;

4) Cymeradwyo'r cynnig i'r cyngor gyfrannu £50 mil y flwyddyn dros 5 mlynedd i dalu ar y cyd am gostau gweithredu'r Cyd-bwyllgor, y Bwrdd Strategaeth Economaidd, Bwrdd y Rhaglen a'r Cyd-bwyllgor Craffu, a swyddogaethau'r Corff Atebol a'r Swyddfa Ranbarthol, a chytuno ar yr egwyddor y caiff mwy o gyllid ei darparu sy'n gyfwerth â'r 1.5% o'r cyllid a neilltuir yn benodol ar gyfer y Fargen Ddinesig. Dirprwyo'r cytundeb ar sail darparu'r cyllid hwn i Bennaeth y Gwasanaethau Ariannol a'r Ganolfan Gwasanaethau (Swyddog Adran 151) mewn ymgynghoriad ag Arweinydd y Cyngor;

5) Awdurdodi Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol a'r Ganolfan Gwasanaethau (Swyddog Adran 151) i archwilio'r benthyciad cymesur mwyaf priodol a'i roi ar waith i ariannu prosiectau rhanbarthol a gyflwynir yn ardaloedd gwahanol y Cyngor;

6) Awdurdodi Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol a'r Ganolfan Gwasanaethau (Swyddog Adran 151) i gyd-drafod â Chyd-gyfarwyddwyr y sail ddyrannu fwyaf priodol ar gyfer cadw trethi annomestig rhanbarthol o ran yr 11 o brosiectau.

**22. Craffu cyn penderfyniad - Adolygiad Comisiynu-Gwasanaethau Diwylliannol.**

Cyflwynodd y Cynghorydd C A Holley yr adborth craffu cyn penderfynu.

**Gadawodd y Cynghorydd R C Stewart (Cadeirydd) y cyfarfod.**

**Bu’r Cynghorydd C E Lloyd (Is-gadeirydd) yn llywyddu.**

**23. Adolygiad Comisiynu-Gwasanaethau Diwylliannol.**

Cyflwynwyd adroddiad gan Aelod y Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio a Thwristiaeth a oedd yn darparu diweddariad am gynnydd yr ymarfer caffael a wnaed ar gyfer cyfleusterau hamdden a diwylliannol, yn dilyn Adolygiad Comisiynu Gwasanaethau 2015, ac yn cyflwyno opsiynau cymharol ar gyfer cyflwyno yn y dyfodol.

**Penderfynwyd:**

1) Nodi cynnydd yr ymarfer caffael a wneir ar gyfer y cyfleusterau hamdden a diwylliannol, yn dilyn Adolygiad Comisiynu Gwasanaethau 2015, a chyflwyno'r opsiynau cymharol ar gyfer cyflwyno yn y dyfodol.

**24. Gwahardd y cyhoedd: -**

Gofynnwyd i'r Cabinet wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitem(au) f/busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad(au) ar y sail ei bod/eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel a nodir ym mharagraff gwahardd Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad i Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes a nodir yn yr adroddiad(au).

Ystyriodd y Cabinet Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes lle'r oedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol fel a nodir yn yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD** y dylid gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitem(au) f/busnes canlynol.

**(Sesiwn Gaeëdig)**

**25. Adolygiad comisiynu-gwasanaethau diwylliannol.**

Cyflwynwyd adroddiad gan Aelod y Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio a Thwristiaeth a oedd yn darparu diweddariad am gynnydd yr ymarfer caffael a wneir ar gyfer cyfleusterau hamdden a diwylliannol, yn dilyn Adolygiad Comisiynu Gwasanaethau 2015, ac yn cyflwyno opsiynau cymharol ar gyfer cyflwyno yn y dyfodol.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r argymhellion, fel y'u hamlinellir yn yr adroddiad.

**26. Gwaredu'r hen ganolfan ddinesig a thir cyfagos , Penllergaer.**

Cyflwynwyd adroddiad gan Aelod y Cabinet dros Drawsnewid Busnes a Pherfformiad a oedd yn ystyried opsiynau ar gyfer gwerthu'r hen Ganolfan Ddinesig a'r tir cyfagos ym Mhenllergaer.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r argymhellion, fel y'u hamlinellir yn yr adroddiad.

## 27. Rheol 7 y Weithdrefn Ariannol - Cyfnewidfa Pont Baldwin 2018/19

Cyflwynwyd adroddiad gan Aelod y Cabinet dros yr Amgylchedd a Rheoli Isadeiledd a oedd yn cadarnhau'r cyllid er mwyn prynu'r tir angenrheidiol ar gyfer Prosiect Cyfnewidfa Pont Baldwin ac yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer gwariant yn 2018-19.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r argymhellion, fel y'u hamlinellir yn yr adroddiad.

Daeth y cyfarfod I ben am 12.27 pm

**Cadeirydd**

**Cyhoeddedig: 21 Mehefin 2018**